

YMUNWCH Â PHOBL HAPUS DUW

Nodyn i'r siaradwr:

Â chynhesrwydd ac argyhoeddiad, helpwch y gynulleidfa i ddeall fod gwir hapusrwydd parhaol yn tarddu o ysbrydolrwydd ac o wneud ewyllys Duw yng nghwmni rhan weladwy ei gyfundrefn

YR UNIG BOBL SY'N WIRIONEDDOL HAPUS (4 mun.)

Y mae hapusrwydd diffuant a pharhaol yn eiddo unigryw y rhai sydd yn wasanaethwyr teyrngar i'r Duw hapus (Sal 128:1, 2)

Wrth iddynt wasanaethu Jehofah fe deimlodd yr Israeliaid hapusrwydd (Sal 33:12)

Roedd disgyblion Iesu yn hapus am fod eu hanghenion ysbrydol wedi'u bodloni (Mth 5:3)

Heddiw, y mae Tystion Jehofah yn adnabyddus am eu bod yn unigryw, unedig, a hapus

Mae Jehofah yn addo hapusrwydd i'r rhai sy'n ei wasanaethu yn ffyddlon

Y mae pobl hapus Duw yn hael wrth helpu eraill i uno â nhw

Y mae'r cenhedloedd yn cael eu gwahodd i lawenhau gyda phobl Duw (Rhu 15:10)

Beth yw sail hapusrwydd pobl Jehofah?

Pa fendithion sy'n dod i'r rhai sy'n ymuno â phobl hapus Duw?

Pam y dylai rhai newydd ymuno â gwir addolwyr?

DYSG DDWYFOL SY'N UNO POBL DDUW A'U GWNEUD YN HAPUS (5 mun.)

Jehofah yw ein Prif Hyfforddwr, a Iesu yw ein Hathro (Sal 25:4; In 13:13)

Rydym yn hapus am inni gadw'n ufudd i Air Duw (Lc 11:28)

Gweithredu gwirioneddau'r Beibl sy'n uno'r rhai newydd â ni

Mae undod a hapusrwydd yn bodoli ymhlith pobl Dduw ym mhob man, am inni oll dderbyn bwyd ysbrydol drwy gyfundrefn Jehofah

Ein heiddo ni yw undod llawen o ran meddwl a gweithred, er gwaethaf cefndiroedd gwahanol (Esei 2:3)

O ganlyniad iddynt drawsffurfio eu hunain trwy gymhwyso gwirioneddau'r Beibl, y mae hyd yn oed gelynyon cynt nawr yn unedig â phobl hapus Duw [Cyfeiriwch at esiamplau cyfoes o hyn yn ein cyhoeddiadau]

Y mae Tystion Jehofah yn cyhoeddi llenyddiaeth mewn tua 1,000 o ieithoedd, sy'n ein helpu ni i feddwl yn gytûn (2Co 13:11)

Mae rhaglen o ddysgu pobl ledled y byd yn eu helpu nhw i fod yn ddoeth ac yn hapus, ac yn eu harwain at fywyd tragwyddol (Act 13:48; Dia 3:13-18)

Y BUDDION O DDOD YN UNEDIG Â PHOBL HAPUS DUW (12 mun.)

Perthynas â Duw sy'n eiddo pob un o'i bobl unedig

Mae gan y rhai sy'n gwneud ewyllys Jehofah ei gefnogaeth bob amser (Sal 68:19)

Cânt agosáu'n rhwydd at yr Un sy'n gwranddo gweddi (Sal 65:2)

Y mae ganddynt heddwch heb ei debyg (Php 4:6, 7; w80-E 11/1 18)

Mae rhoi dysgeidiaethau'r Beibl ar waith yn rhoi cadernid ysbrydol inni, ac yn cynnal ein hapusrwydd

Cariad brawdol a'i fendithion yw eiddo'r rhai sy'n unedig fel pobl hapus Dduw (In 13:35; Col 3:14; 1Pe 2:17)

Maent yn profi'r fath gariad yn eu cyfarfodydd, cynullïadau, cynadledau

Amlygir cariad pryd y mae cyd-addolwyr mewn angen yn lleol, neu'n fyd eang pan fydd trychinebau'n taro

Bywyd tragwyddol yw gobaith y rhai sy'n uno â phobl Dduw

Gwnaeth Jehofah y fath fywyd yn bosibl drwy aberth pridwerthol Iesu Grist (Mth 20:28; Rhu 5:8; w92-E 6/15 4-7)

Mae'r eneniog yn elwa ar aberth Iesu, ac yn dod yn gyd-etifeddion o'i Deyrnas ef (1In 2:1, 2)

Mae'r "defaid eraill" hefyd yn elwa ar aberth Iesu ac yn gorfoleddu yn y gobaith o fyw mewn paradwys ar y ddaear (In 10:16; Lc 23:43)

Wrth i werthoedd ysbrydol ddisodli rhai materol, mae bywyd o wir ystyr yn gwawrio (Mth 6:33; Php 1:9, 10)

Fel gwnaeth Crist, y mae pobl Jehofah yn rhoi'r lle cyntaf i'w ewyllys Ef (In 6:38)

Fel Iesu, mae ganddynt fywydau llawn bwrpas, yn anrhydeddu Jehofah ac yn tystiolaethu i'r gwirionedd (In 18:37)

[Cyfeiriwch at hanesion diweddar o'r *Watchtower* a'r *Awake!* sy'n profi bod gan bobl unedig Duw bywydau gwirioneddol hapus ac ystyrlon]

DYLA'R RHAU SY'N CARU DUW YMUNO Â'I BOBL EF (5 mun.)

Ystyriwch pam y dylai'r rhai sy'n caru Duw ymuno a'i bobl ef (w93-E 5/15 9-10)

Fel Brenin y Bydysawd, mae Jehofah yn haeddu ymroddiad llwyr (Ex 20:4, 5)

Mae consŷrn dwys am gyfiawnhau sofraniaeth Jehofah, ac am sancteiddio ei enw, yn ein cymell i'w wasanaethu

Gall pobl ddangos eu cariad tuag at Dduw drwy ddod yn unedig â'r rhai sy'n gwneud ei ewyllys ac yn cadw ei orchmynion (1In 5:3)

Mae bod yn ddiolchgar i Jehofah am ddarpariaeth gariadus aberth pridwerthol ei Fab yn rheswm da dros wasanaethu Duw ynghyd â'i bobl (In 3:16)

Dylai gwerthfawrogiad am ddarpariaethau ysbrydol Duw drwy ei gyfundrefn ein hannog ni i'w addoli ef Rheswm ychwanegol dros wasanaethu Jehofah ynghyd â'i bobl yw'r awydd cryf i sôn am Deyrnas Dduw (Sal 145:10, 11)

YMWUNWCH Â PHOBL HAPUS DUW NAWR (4 mun.)

Proffwydodd Sechareia y byddai pobl yn ymuno â Christnogion eneiog, sef 'Iddewon' ysbrydol [Darllenwch Sechareia 8:23]

Erbyn hyn mae llawer yn croesawu neges y Deyrnas

Os mai un sy'n caru Duw a chyfiawnder ydych chi, nawr yw'r amser i ymuno â gweision Jehofah

Mae tystiolaeth o fendith Duw ar ei bobl yn cynyddu'n ddyddiol wrth i bobl o'r holl genhedloedd ymuno â'r rhai sy'n ei wasanaethu

Mae "tyrfa fawr" o bob cenedl yn dod yn rhan o deulu addolwyr hapus Jehofah. Dyma'r rhai a fydd yn goroesi'r "gorthrymder mawr" (Dat 7:9, 10, 14; 21:1, 4, 5)

A fyddwch chi ymhlith y rhai sydd yn gwbl unedig â phobl hapus Duw?

Fel un o'r miliynau sy'n gwasanaethu Jehofah ag undod, mae llawer o fendithion yn eich disgwyl

(Cadwch yn agos at ddeunydd yr amlinelliad, a chadwch at yr amser ar gyfer pob rhan. Does dim rhaid darllen na thrafod pob testun. Gwelwch y llyfr *Ministry School*, tt. 52-55, 166-169.)

Rhif 186-W—tudalen 2

I'W DRADDODI MEWN 30 MUNUD

© 2013 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania